# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0764(SJR) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 13 Gorffennaf 2006

**At Jocelyn Davies:**

Ymgymerais ddarparu gwybodaeth ychwanegol i chi am rai materion a godasoch yn ystod cwestiynau yn y Cynulliad.

Yr oedd eich pwynt cyntaf ynghylch canllawiau ar briodoldeb lleoliadau ar gyfer darparu cyfleusterau i wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae ein pedwar tîm rhanbarthol yn medru cynorthwyo gyda materion yn ymwneud â'r angen yn yr ardaloedd lleol yn eu dalgylch. Fodd bynnag, cyn eu bod yn medru cynnig y cymorth hwn, mae'n rhaid i gyrff gael eu cyfeirio at adrannau cynllunio'r awdurdodau lleol perthnasol. Yn ychwaneg, yr ydym wastad yn cynghori y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ymgynghori yn yr ardaloedd sy'n cael eu dewis ar gyfer yr unedau, fel y gellir tawelu pryderon y cyhoedd a chydnabod unrhyw broblemau a delio gyda nhw yn gynnar yn hanes y datblygiad. Yr ydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar ddatblygiad cynigion cyfalaf. Byddant yn cynnwys arfer gorau ar drin materion ynghylch cynllunio lleol a dylent gael eu cyhoeddi ar fyrder.

Gofynasoch yn ogystal faint o welyau sydd wedi cael eu creu yn ardal Dwyrain De Cymru ers 1999. Nid yw'n bosibl i ddarparu ffigurau o mor bell yn ôl â 1999, ond, drwy'r grant tai a chymorth, crëwyd 13 gwely ôl-ailsefydlu ers 2003 a chrëwyd 26 gwely tai a chymorth ychwanegol ar gyfer unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl yn digwydd ar y cyd â chamddefnyddio sylweddau ers mis Ebrill eleni.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0929(EIN) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, ym mis Gorffennaf 2006

**At Nick Bourne:**

Ysgrifennaf ymhellach at eich cwestiwn llafar ar 5 Gorffennaf 2006 ynglŷn â'r cerbydau a ddefnyddir ar wasanaethau cludo teithwyr Trenau Arriva Cymru yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Wrth ymateb i'ch cwestiwn, ymroddais i ddarparu gwybodaeth fwy penodol ar ffurf llythyr ategol. Felly, dymunaf eich hysbysu o'r manylion canlynol:

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi mewn darparu capasiti ychwanegol ar wasanaethau Calon Cymru dros y penwythnos drwy gydol haf 2006. Gwneir hyn drwy gynnal trenau dwy goets, yn hytrach na threnau un goets, ar y siwrneiau prysuraf.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi mewn darparu capasiti ychwanegol i wasanaethau Cambria bob dydd o'r wythnos o Orffennaf 2006 tan Ragfyr 2006. Defnyddir dau drên ychwanegol. Bydd un yn cael ei ddefnyddio i gryfhau'r capasiti sydd eisoes yn bodoli, tra bydd y llall yn cael ei ddefnyddio fel '*hot spare*' ar gyfer y mannau a'r amserau y bydd ei angen yn syth.
- Trwy ei gyllid refeniw, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi mewn llesio wyth trên dosbarth 150 ychwanegol—mae pob trên yn ddwy goets o hyd. Bwriedir lleoli'r trenau hyn ar y llwybrau rhyngdrefol prysuraf nes i'r cytundeb masnachfraint ddod i derfyn.
- Trwy'r cytundeb masnachfraint, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ariannu'r ddarpariaeth o 11 trên dosbarth 175 ychwanegol o Ionawr 2007 ymlaen. Maent yn drenau modern a byddant yn cymryd lle'r dosbarth 158 hŷn. Lleolir y trenau'n bennaf ar y

gwasanaethau cludo teithwyr o orllewin Cymru i Fanceinion a hefyd y gwasanaethau o Gaerdydd i Gaergybi.

- Mae Trenau Arriva Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cwrdd gyda chwmni llesio cerbydau er mwyn canfod a fydd unrhyw gerbydau newydd ychwanegol ar gael yn y dyfodol agos.

Hyderaf fod y wybodaeth hon o gymorth.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0966(EIN) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, ym mis Gorffennaf 2006**

**At Glyn Davies:**

Ar 5 Gorffennaf 2006, dywedais y byddwn yn ysgrifennu ymhellach atoch ynglŷn â Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd, Aberystwyth, ers y cyhoeddiad am golli swyddi yno.

Yn benodol, dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch gyda manylion am y gwaith y mae’r sefydliad yn ymgymryd ag ef ym maes prosiectau biodanwydd.

Mae’r sefydliad yn ymwneud â nifer o brosiectau biodanwydd, yn benodol, mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe, ac mae’n astudio biomas wrth gynhyrchu tanwydd cludiant. Mae ariannu wedi ei gytuno mewn egwyddor wrth ganolfan ymchwil ynni Cymru.

Yn ychwanegol, mae’r sefydliad yn adeiladu cysylltiadau agosach gyda phrifysgolion Abertawe, Aberystwyth a Bangor mewn rheolaeth tir, yr amgylchedd a biomas, i gynyddu eu cyrhaeddiad ymchwil ar y cyd er mwyn cystadlu’n fwy effeithiol ar gyfer prosiectau ymchwil.

Yn ogystal, mae’r sefydliad wedi ennill ariannu Amcan 1 Ewropeaidd ar gyfer y prosiect arddangos ‘Willows for Wales’ sydd yn ymchwilio i fudd cynhyrchu biomas o helyg i ffermwyr mewn sawl lleoliad ar draws Cymru.

Yn fwy diweddar, cyhoeddodd yr Adran Masnach a Diwydiant ei adolygiad ynni, a gyfeiriai’n benodol at drydan a thanwydd. Bydd gan fiomas ran bwysig i’w chwarae yn y datblygiad hwn.

Byddwn hefyd yn cadw mewn cysylltiad agos gydag uwch reolwyr y sefydliad am gyfleoedd cyfoes ac yn y dyfodol ar gyfer cefnogaeth neu gymorth wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru.